# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

## RHAN 3

SIPSIWN A THEITHWYR

*Cwrdd ag anghenion llety*

### 103 Dyletswydd i gwrdd ag anghenion asesedig

(1) Os yw asesiad cymeradwy awdurdod tai lleol yn nodi anghenion o fewn ardal yr awdurdod mewn perthynas â darparu safleoedd lle mae modd gosod cartrefi symudol, rhaid i'r awdurdod arfer ei bwerau o dan adran 56 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (y pŵer i ddarparu safleoedd ar gyfer cartrefi symudol) i'r graddau y bo'n angenrheidiol i gwrdd â'r anghenion hynny.

(2) Ond nid yw is-adran (1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod tai lleol ddarparu mewn safleoedd ar gyfer gosod cartrefi symudol, neu mewn cysylltiad â hwy, fannau gweithio a chyfleusterau ar gyfer cynnal gweithgareddau a wneir fel arfer gan Sipsiwn a Theithwyr.

(3) Mae'r cyfeiriad yn is-adran (1) at asesiad cymeradwy awdurdod tai lleol yn gyfeiriad at asesiad mwyaf diweddar yr awdurdod o anghenion llety a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 102(3).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 103 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 103 mewn grym ar 16.3.2016 gan O.S. 2016/266, **ergl. 2(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 103.